



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hyrwyddo'r Gymraeg

26/1/26 Sesiwn 1: Cefndir



Amserlen Sesiwn 1

9:30 Rhan 1: **Pontio rhwng Modiwl 1 a Modiwl 2**

10:50 **Egwyl**

11:00 Rhan 2: **Hyrwyddo'r Gymraeg**

12:25 Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio



RHAN 1



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies





Croeso i'r Modwl: Hyrwyddo'r Gymraeg

Archwilio sut yr hyrwyddir y Gymraeg yng Nghymru drwy gynllunio ieithyddol, gan astudio'r modd y mae sefydliadau cyhoeddus yn gwneud hynny, beth sy'n eu cymell a pha brosesau ac egwyddorion yr ymwneir â nhw.

Archwilir hefyd sut y caiff defnydd o'r Gymraeg ei hyrwyddo gan unigolion a chymunedau Cymraeg, ynghyd ag asiantaethau'r wladwriaeth, ac eraill.

Hyrwyddo'r Gymraeg

- Unigolion
- Cymunedau
- Sefydliadau Cyhoeddus
ac Asiantaethau'r Wladwriaeth
- Sector Preifat
- Trydydd Sector, Sector Wirfoddol

ym meysydd...

addysg
gweinyddiaeth gyhoeddus
iechyd a gofal
economi
cyfryngau a diwylliant
cymunedol a hamdden



Digwyddiadau

Cynhadledd/Fforwm Undydd : Cymraeg y Cyfryngau
Dydd Gwener 27 Mawrth, Caerdydd

Cyhoeddi adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
Dydd Mawrth 3 Mawrth

Adroddiad Pwyllgor Diwylliant Senedd Cymru, Chwefror 2025

Fosterlang – Ebrill/Mai 2025

Fosterlang Arlein Mai 2025

Adroddiad Ail Gam Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Ymweliad swyddogol gyda'r Undeb Ewropeaidd – Nicolas Levrat, Tapporteur
Arbenigol y Celonawr





Aseiniadau Modwl 1: Diweddariad

- Diolch am eich holl waith caled
- Cysylltwch os ydych eisiau trafod aseiniadau Modwl 1
- Bydd marciau dros dro y traethodau'n cael eu dychwelyd:
19/02/2026

Cyfle i adfyfyrrio mewn grwpiau bach am 5 munud ac adrodd nol:

Cwestiwn 1. Beth oedd y 2 beth pethau mwyaf gwerthfawr i chi?

Cwestiwn 2. Beth oedd y 2 beth mwyaf heriol am y profiad ?





Heriol

- Ysgrifennu yn academiaidd yn her. Ydyn nhw'n bod yn ddigon beirniadol wrth ysgrifennu?
- Yr holl waith darllen!
- Ble mae'r ffin rhwng y cyflwyniad a'r traethawd?
- Ystod y cwrs yn eang - rhaid dethol beth i'w ddefnyddio
- Bywyd/gwaith/y cwrs – realiti hyn! Rheoli hyn yn her.
- Nifer y geiriau
- Byddai cwestiwn traethawd tynnach falle yn haws i ddelio gydag e.
- Byddai sesiwn sgwennu academiaidd o

fantais

- Cyfeirnod – pethau fel hyn yn cymryd cymaint o amser.



Gwerthfawr

- Ehangder y maes
- Cael persbectif rhyngwladol – lens wahanol, llai o ragfarn felly wrth feddwl am Gymru yn unig
- Richard - Safbwynt tuag at y Gernyweg wedi newid. Mwy o gydymdeimlad.
- Dysgu am gyd-destunau eraill – Cymru ddim ar ei phen ei hun
- Gwerthfawrogi cymaint a ddysgwyd o'r cychwyn
- Cael eich gorfodi i ddarllen pethau sydd o fudd mawr yn y gwaith – heb yr amser/egni i'w darllen fel arfer. Gwerthfawrogi cael y gofod hwn i wneud hynny.
- Cymaint mwy ni'n rydym yn ei wybod 'nawr ers dechrau'r cwrs



Cwestiwn 1. Beth oedd y 2 beth pethau mwyaf gwerthfawr i chi?

Cwestiwn 2. Beth oedd y 2 beth mwyaf heriol am y profiad ?

Heriol

Gwerthfawr



Amserlen Modwl 2

Sesiwn 1 26/1/26	• Pontio Cyflwyniad
Sesiwn 2 02/02/2026	• Cynllunio Iaith Cymunedol Mentrau Iaith Cymru
Sesiwn 3 09/02/2026	• Iaith, Cymuned, Economi Bro ac ARFOR
Hanner Tymor 16/02/2026	Wythnos Ddarllen
Sesiwn 4 23/02/2026	• Comisiynydd y Gymraeg
Sesiwn 5 02/03/2026	• Iechyd a Gofal
Sesiwn 6 09/03/2026	• Jeremy Evas, Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru
Sesiwn 7 16/03/2026	• Y Cyfryngau
Sesiwn 8 23/03/2026	• Addysg Newid Ymddygiad a Chadernid Iaith
Pasg 30/03/2026 - 06/04/2026	
Sesiwn 9 13/04/2026	Cyflwyniadau Llafar
Sesiwn 10 20/04/2026	• Adrodd nôl o'r cyflwyniadau • Trafod y Traethawd eto
Sesiwn 11 27/04/2026	Crynhoi 11:45-12:45 Ymweliad Arholwr Allanol



Aesu: Cyflwyniad

Teitl yr Aseiniad: Cyflwynwch yn feirniadol asesiad o sefyllfa/gymdogaeth ieithyddol benodol, gan gynnig syniadau a chynlluniau ar gyfer adfer iaith yn y sefyllfa honno.

Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth): 30 munud
(oddeutu 20 munud o gyflwyniad; oddeutu 5 munud o gwestiynau; 5 munud croesawu)

Dyddiad cyflwyno: 13/04/2026

Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: 08/05/2026



Aesu: Traethawd

Teitl yr Aseiniad: Dadansoddwch yn feirniadol gynllun/iau gan un neu ragor o endidau i hyrwyddo'r Gymraeg. Dylech roi sylw i elfennau strategaeth, polisi a gweithredu.

Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth): 5,400

Dyddiad cyflwyno: 15/05/2026

Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: 05/06/2026



Pwyllgor Staff Myfyrwyr

1. Diolch am eich adborth
2. Cynrychiolydd Semester 2
3. Dyddiad y Cyfarfod:

09/03/2026 (PM)



EGWYL





RHAN 2



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies





Beth yw ystyr “hyrwyddo” iaith?

Ymatebion y myfyrwyr i'r cwesitwn ar Vevox: "Beth yw ystyr 'hyrwyddo iaith'?"



Join at:
vevox.app

ID:
198-253-918



Beth yw ystyr "hyrwyddo" iaith?

7/7

awyrgylch ffafriol
rhannu arferion da anogaeth
rhannu hawliau rheswm i ddefnyddio hawliau
rhannu buddion bod yn fwriadol cynnal iaith
dathlu marchnata
gweithgareddau codi statws
rhoi llais codi ymwybyddiaeth
advocate eriolaeth codi hyder
dangos gwerth ymateb i broblem
gweithredu a monitro gwaith a hamdden
defnyddio'n actif creu/hyrwyddo cyfle
ymgyrch/rhaglen cymryd camau penodol



Beth yw ystyr “hyrwyddo” iaith?

COUNCIL OF EUROPE



CONSEIL DE L'EUROPE

Siarter Ewropeaidd leithoedd
Rhanbarthol neu Leiafrifol 1992

Gwarchod a
Hyrwyddo

Amddiffyn

Gwarchod

Diogelu



Beth yw ystyr “hyrwyddo” iaith?

COUNCIL OF EUROPE



CONSEIL DE L'EUROPE

Siarter Ewropeaidd leithoedd
Rhanbarthol neu Leiafrifol 1992

Gwarchod a
Hyrwyddo

Rheoleiddio

Ymrymuso

Hyrwyddo

Hybu

Cynnal

Datblygu

Amddiffyn

Gwarchod

Diogelu



Hyrwyddo a Defnyddio'r Iaith

1. Pa ffactorau sydd yn rhaid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer hyrwyddo iaith leiafrifedig, er mwyn arwain at gynnydd yn ei defnydd?

Ystyriwch ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol, technolegol a demograffig

2. Beth yw'r berthynas rhwng hyrwyddo a defnydd?

- **Grwpiau ac adrodd yn ôl**

.



1. Pa ffactorau sydd yn rhaid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer hyrwyddo iaith leiafrifedig, er mwyn arwain at gynnydd yn ei defnydd? Grŵp 1

- *Rhwystrau – gwleidyddol – polisïau sy’n rhwystro ti rhag defnyddio? Technoleg – unrhyw beth yn dy atal?*
- *Data Cyfrifiad – beth yw’r negeseuon, fel bo ti’n gwybod beth ti eisiau ei dargedu? Pa strategaethau sydd angen eu rhoi mewn lle i e.e. ysgol benodol. Angen ymyraethau pwrpasol gan wybod beth yw’r allbynnau.*
- *Y fframio – gwybod beth ni’n trial cael mas ohono, fel bo ni’n datrys yr her.*
- **Beth yw'r berthynas rhwng hyrwyddo a defnydd?**
- *Rhyngberthynas agos rhwng y ddau ohonynt. Rhaid i’r hyrwyddo arwain at ddefnydd, fel ei fod yn bwrpasol. Angen bod dim angen yr hyrwyddo – bod e wedi gwneud ei waith. Cynnal ei hun yn naturiol wedi’r ymyrraeth. Yn aml, dyw'r hyrwyddo ddim mor amlwg. Defnydd – pwy bynnag sy’n cynllunio angen bod yn ymwybodol o’r sefyllfa. Y ‘nudge’ ar adegau yn lle’r gwaith mawr. Angen i ti wybod pam dy fod yn cynllunio, ond dim rhaid i’r defnyddwyr wybod pam o reidrwydd.*



Pa ffactorau sydd yn rhaid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer hyrwyddo iaith leiafrifedig, er mwyn arwain at gynnydd yn ei defnydd? **Grŵp 2**

- *Cysylltiadau gyda phŵer. Angen adnoddau i gyd fynd gyda'r hyrwyddo. Felly pwy sydd â'r grym, pwy sydd â'r pŵer. Gwario arian a hyrwyddo. Sut ni'n delio gyda'r her o ran y feirniadaeth nad oes arian i'w wario ar hyrwyddo iaith.*
- *Defnydd o'r iaith – pwy sy'n ei siarad/ble? Cael y data i wybod bod yr adnoddau yn cael eu rhoi yn y lle iawn.*
- *Ar hyn o bryd, rydym mewn sefyllfa wleidyddol gymhleth. Posibiliad mawr o gael llywodraeth newydd ym mis Mai. Rhaid bod yn realistig o ran yr hyn sy'n bosib. I ba raddau mae'r gymuned ehangach yn gefnogol o'r ymgyrch i hyrwyddo'r Gymraeg. I ba raddau ni'n gallu rheoli'r neges/naratif o ran yr iaith, o ystyried nad oes rheolaeth gyda ni o'r cyfryngau. Pwy yw "Ni"?*
- *Technoleg – beth sydd ar gael. Ydy'r hyn sydd ar gael o'r un safon ag ieithoedd eraill? Cost datblygu technoleg fel bod e o'r un ansawdd. Ffigurau amlwg fel Elon Musk – pa sgiliau diplomataidd sydd eu hangen i drafod gyda phobl fel nhw. Cymeriadau hollol wahanol i unigolion yn Sansteffan, felly byddai strategaeth wleidyddol yn hollol wahanol.*
- *Gwleidyddiaeth a hyrwyddo. Stad y byd 'nawr. O ran dysgu hanes a brwydr yr iaith – ddim yn digwydd lot mewn ysgolion. Os oedd disgyblion ysgol yn gwybod yr hanes a'r frwydr, byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr. Y genhedlaeth iau yn fwy ymwybodol o'u hawliau ac ati. Deall y cyd-destun.*
- *Data yn gallu gwneud i chi ddigalonni. Cwymp yn y niferoedd. Chi'n gorfod parhau i hyrwyddo.*



Pa ffactorau sydd yn rhaid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer hyrwyddo iaith leiafrifedig, er mwyn arwain at gynnydd yn ei defnydd?

- Agweddau o fewn y gymdeithas - ar beth mae'r rhain yn seiliedig?
- Hyder/sgiliau
- Trosglwyddiad iaith
- Polisi iaith (*y gallu i gefnogi neu atal, cynigion "rhagweithiol"*)
- Statws cyfreithiol neu ganfyddiadol
- Gwerth economaidd yr iaith, statws economaidd ei siaradwyr
- Adnoddau cyllidol a strwythur yr economi
- Addysg (*Caffael yn blentyn a dysgu fel oedolyn*)
- Cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, seilwaith technolegol yr iaith, DA
- Ffactorau demograffig (*oed, dosbarth, hyfywedd iaith mewn lle daearyddol/mudo ac ati*)
- Dwysedd a sefydlogrwydd/symudedd y boblogaeth
- Cyfleoedd i'w defnyddio – *gwahanol beuoedd yn cynnwys y sector cyhoeddus, preifat a chymunedol*
- Cymhelliant a chadernid yr unigolyn i'w defnyddio
- Strwythurau sydd ar waith – economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, isadeiledd

Oes rhagor?

Beth yw'r berthynas

rhwng hyrwyddo a defnydd?



Tasg ar gyfer Sesiwn 2 – a allwch chi roi'r ffactorau a nodwyd i mewn i'r meysydd isod?

GWLEIDYDDOL

CYMDEITHAS-DDIWYLLIANNOL

TECHNOLEGOL

ECONOMAIDD

DEMOGRAFFIG



Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch:

Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg – [Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg](#) (Llywodraeth Cymru, Awst 2024) a [Cylch Gorchwyl](#) y Comisiwn yn yr ail gam.





Yn y sesiwn nesaf:

Cynllunio Iaith Cymunedol Mentrau Iaith Cymru



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies

